CYNGOR

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD TRWY MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MAWRTH, 13 EBRILL 2021 AM 5.00PM

PRESENNOL:

Cynghorydd C. Andrews - Maer
Cynghorydd J. Gale - Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

M. Adams, E.M. Aldworth, A. Angel, P. Bevan, C. Bezzina, L. Binding, A. Collis, S. Cook, C. Cuss, W. David, M. Davies, T. Davies, N. Dix, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, C. Forehead, A. Gair, N. George, C. Gordon, R. Gough, L. Harding, D. Havard, A. Higgs, A. Hussey, V. James, L. Jeremiah, G. Johnston, B. Jones, S. Kent, G. Kirby, A. Leonard, P. Leonard, C. Mann, P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, B. Owen, T. Parry, L. Phipps, D. Poole, D. Preece, D. Price, J. Pritchard, J. Ridgewell, R. Saralis, M.E. Sargent, J. Simmonds, G. Simmonds, S. Skivens, E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L. Whittle, T. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski.

Ynghyd â:-

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a'r Amgylchedd), R. Kyte (Pennaeth Cynllunio ac Adfywio), R. Thomas (Rheolwr Datblygu Cynllunio) ac E. Sullivan (Swyddog Gwasanaethau Uwch Bwyllgor)

Hefyd Yn Bresennol:

K. Bernie ac F. Holmes (Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd)

FFILMIO GWE-DDARLLEDIAD A THREFNIADAU PLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr y rhai a oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ond na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod trwy wefan y Cyngor – Cliciwch Yma i'w Wylio. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud trwy Microsoft Forms.

ER COF

Gyda thristwch mawr cyhoeddodd y Maer farwolaeth mam y Cynghorydd Carmen Bezzina yn ddiweddar ac ymuno â gweddill y Wlad i fynegi ei thristwch ar farw Ei Uchelder Brenhinol, y Tywysog Philip Dug Caeredin. Cynhaliodd y Cyngor funud o dawelwch er cof a pharch.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J. Bevan, C. Elsbury, J.E. Fussell, D. Hardacre, D. Harse, M. James a G. Oliver.

2. CYHOEDDIADAU'R MAER

Cyfeiriodd y Maer at ddigwyddiad ar-lein ar gyfer Sgowtiaid Abercarn, lle dathlwyd llwyddiant 5 aelod a oedd wedi derbyn Gwobr Uchaf y Sgowtiaid. Er na allai fod yn bresennol yn bersonol, llwyddodd y Maer i ddarparu neges fideo fer i'w llongyfarch ar eu camp ragorol.

DATGANIAD GAN Y CYNGHORYDD L. BINDING

Cadarnhaodd y Maer ei bod wedi rhoi caniatâd i'r Cynghorydd Lyndon Binding wneud datganiad byr i'r Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Binding wrth y Cyngor y byddai'n ymddiswyddo fel Cynghorydd Bwrdeistref Sirol ar ddiwedd y mis oherwydd mater iechyd parhaus. Diolchodd i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu cyfeillgarwch, eu cymorth a'u cefnogaeth dros y blynyddoedd, yn enwedig Gwasanaethau Democrataidd a Phwyllgor a Thîm Rheoli Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mynegodd Cydweithwyr Ward, Arweinwyr Grŵp a'r Prif Weithredwr eu dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Binding a'i ŵr a rhannwyd atgofion o'r amser yr oeddent wedi'i dreulio gydag ef fel cyfaill a chydweithiwr yn ogystal â Chadeirydd Pwyllgor profiadol a phroffesiynol ac Aelod Etholedig gweithgar dros Gwm Aber.

3. DERBYN DEISEBAU O DAN REOL GWEITHDREFN 28(3)

Cyflwynodd y Cynghorydd Walter Williams ddeiseb ar ran Trigolion Argoed yn gwrthwynebu datblygiad arfaethedig lloches trwy gydol y flwyddyn a lloches nos yng Nghapel y Bedyddwyr Argoed.

Cyflwynodd y Cynghorydd Andrew Farina-Childs ddeiseb ar ran Trigolion Coed Duon yn gofyn am weithredu yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol ym Mharc Cefn Fforest.

Cyflwynodd y Cynghorydd Kevin Etheridge ddeiseb yn gofyn am gamau gweithredu ac adnoddau mewn perthynas â Mater Gorfodi Tenantiaeth.

Derbyniodd y Maer y deisebau a fyddai'n cael eu gweithredu yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.

4. CYFLWYNO GWOBRAU

Cyflwynwyd Mr Gerwyn Price, Pencampwr Dartiau'r Byd i'r Cyngor gan y Cynghorydd Walter Williams ac amlinellodd ei gyflawniadau niferus mewn blynyddoedd diweddar, gan arwain at ennill Pencampwriaeth Dartiau'r Byd. Croesawyd Mr Price i'r cyfarfod gan y Maer a chydnabu'r Cyngor Mr Price yn ffurfiol a'i longyfarch ar ei lwyddiant gwych.

5. DATGANIADAU O FUDD

Cafwyd datganiadau o fudd personol gan y Cynghorydd P. Marsden a'r Cynghorydd S. Morgan mewn perthynas ag Eitem Agenda Rhif 9 – Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth

Caerdydd, Cysylltiedig, Cystadleuol, Cadarn – Cyflwyniad gan eu bod yn Aelodau o Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Byrddau Cysylltiedig.

Cafwyd datganiadau o fudd personol hefyd gan y Cynghorydd A. Whitcombe mewn perthynas ag Eitem Agenda Rhif 9 – Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Cysylltiedig, Cystadleuol, Cadarn – Cyflwyniad gan ei fod yn Aelod o Bwyllgor Craffu ar y Cyd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

6.7.8 COFNODION

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2021, 2 Mawrth 2021 a 18 Mawrth 2021 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir a chytunwyd yn unfrydol ar hyn trwy Microsoft Forms.

Mewn perthynas â chofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2021, cyfeiriodd y Cynghorydd Sean Morgan at dudalen 14 a gofyn a gafodd y Cynghorydd Fussell a'r Cynghorydd Mann gyfle i adolygu recordiad y cyfarfod y cyfeirir ato yn yr adran hon o'r cofnodion.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Mann nad oedd y Cynghorydd Fussell yn bresennol yn y cyfarfod, ond roedd wedi adolygu'r recordiad oedd yn cadarnhau fersiwn y Cynghorydd Morgan o ddigwyddiadau a dywedodd ei fod wedi siarad â Mr Tranter yn y cyswllt hwn. Cynigiodd y Cynghorydd Mann ar ran Grŵp Plaid Cymru ymddiheuriad i'r Cynghorydd Morgan ar y mater hwn.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion canlynol fel cofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Maer

(1) Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2021
(2) Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2021
(3) Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2021

9. BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD – CYSYLLTIEDIG, CYSTADLEUOL, CADARN - CYFLWYNIAD

Cafwyd datganiadau o fudd personol yn unig gan y Cynghorwyr P. Marsden, S. Morgan ac A. Whitcombe ond fel y cyfryw nid oedd yn ofynnol iddynt adael y cyfarfod i ystyried yr eitem hon.

Estynnwyd croeso gan y Maer i Kellie Bernie a Frank Holmes o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i'r cyfarfod a chyflwynodd y Cynghorydd Philippa Marsden y cyflwyniad.

Manylodd y cyflwyniad ar y cynnydd a wnaed gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd dros y pedair blynedd diwethaf a'i blaenoriaethau allweddol wrth symud ymlaen. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai ansawdd bywyd, cyfle ac effaith gymdeithasol fyddai'r ysgogwyr gydag uchelgeisiau economaidd sy'n cyfateb i bolisïau cymdeithasol blaengar yn arwain y ffyniant cyffredinol. Roedd y fframwaith buddsoddi ac ymyrraeth a'r cyfleoedd ar gyfer cydweithredu yn fanwl ac eglurwyd y blaenoriaethau cyllido wrth i'r rhanbarth symud o gamau cychwynnol i weithredu ar raddfa fwy.

Amlinellwyd strwythurau llywodraethiant a phartneriaeth, a nododd yr Aelodau sut yr oedd arferion gwaith wedi cael eu trawsnewid gan gyflymu prosesau gwneud penderfyniadau. Dangosodd gwaith y Byrddau Rhanbarthol gydbwysedd cryf o ran busnes ac arweinyddiaeth leol gyda strategaeth glir sy'n gwasanaethu'r rhanbarth. Amlinellwyd cronfeydd buddsoddi'r dyfodol a sut y byddent yn cael eu defnyddio orau wrth lunio a chreu marchnadoedd a

chyfleoedd newydd. Nodwyd cyfleoedd a phrosiectau menter ar y cyd, ac amlygwyd y llwyddiannau a gyflawnwyd eisoes fel CSC Foundry Ltd, Technoleg Creo-Plasma a Pharmatelligence. Manylwyd ar y prosiectau a oedd eisoes ar y gweill a nodwyd y byddai'r proffil buddsoddi ehangach yn cynnwys cysylltedd gwledig, arloesedd clinigol digidol a hyb arloesedd seiber. Esboniwyd effaith ehangach prosiectau buddsoddi fel CSC Foundry Ltd a dywedwyd wrth yr Aelodau bod 110 o swyddi gwerth uchel wedi'u creu o ganlyniad, gyda 95% ohonynt o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Roedd 545 o swyddi wedi'u diogelu ac amcangyfrifwyd bod 956 o swyddi anuniongyrchol wedi'u creu.

O ran yr effaith ar Gaerffili, roedd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gweithio gyda'r Cyngor ar Gyfnewidfa Metro Plus Caerffili, Porth Darganfod Parc Rhanbarthol y Cymoedd a Chronfa Bwlch Hyfywedd Tai gyda 2 safle ar y rhestr ddangosol. Roedd dyfodol Caerffili yn cynnwys cefnogaeth ddiwydiannol yr A465 a Choridor yr M4, buddsoddiad mewn Technoleg Feddygol, Dyfeisiau a Diagnosteg, Arloesedd Tai, Ynni a Niwtraliaeth Carbon, Blaenoriaethau Rheilffyrdd Strategaeth gyda blaenoriaethau ar gyfer twf mewn Ymchwil a Datblygu yn y dyfodol a oedd newydd gychwyn.

Esboniwyd rôl y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol newydd a fyddai'n darparu model newydd o lywodraethiant economaidd rhanbarthol. Cydnabuwyd amheuon aelodau gyda golwg ar ôl troed y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol o ran cydweithredu a chyfathrebu ond roedd ganddynt rôl ganolog i'w chwarae wrth weithio ar raddfa wahanol ac ar lefel ranbarthol. Gan alluogi'r model sydd eisoes yn aeddfedu i wneud y gorau o strwythurau, datblygu cronfeydd a rhaglenni newydd a sicrhau mwy o effaith trwy gael gwared ar rwystrau sy'n atal twf.

Wrth gloi'r cyflwyniad gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r 5 maes allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf a'r buddion a ddaw yn sgil gweithredu fel rhanbarth o ran twf economaidd a chanlyniadau cadarnhaol wrth i'r Fargen Ddinesig esblygu i'r Brifdddinas-Ranbarth gyda phrosbectws clir ar gyfer newid ac esblygiad yn cau'r bwlch rhwng y cymunedau lleiaf a mwyaf difreintiedig.

Rhoddodd y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor grynodeb o ffocws Caerffili a'r ymagweddau y byddai angen eu mabwysiadu er mwyn sicrhau cynnydd. Nododd yr aelodau y sylfaen gadarn a oedd gan y Fwrdeistref Sirol eisoes o ran gweithgynhyrchu ond roedd enillion gwirioneddol i'w gwneud mewn Ymchwil a Datblygu, Bwyd a Thechnoleg. Esboniwyd y rôl a chwaraeodd Prif Gynlluniau fel Blaenau'r Cymoedd a Basn Caerffili, a gymeradwywyd eisoes gan y Cyngor, wrth sicrhau cyfleoedd ariannu parhaus. Amlinellwyd pwysigrwydd ymagweddau arloesol o fuddsoddi a chyfleoedd datblygu a rhoddwyd crynodeb o'r enillion economaidd posibl yn gyffredinol. Byddai'r holl ffactorau hyn yn sicrhau cystadleurwydd lleol a rhanbarthol ac yn gwneud Bwrdeistref Sirol Caerffili yn lle gwych ar gyfer byw, gweithio a mwynhau.

Mynegodd yr aelodau eu diolch am y cyflwyniad a gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â'r arian a ddangoswyd ar gyfer y cynnig Metro, a oedd yn ymddangos fel swm cymharol fychan o £15 miliwn. Cadarnhawyd bod y swm hwn yn ymwneud â chynllun Metro Plus i gefnogi cynlluniau trafnidiaeth lleol, cynaliadwy.

Nodwyd cynnig ar gyfer cerbydau trydan a hydrogen hefyd a gofynnwyd am wybodaeth bellach mewn perthynas â hyn. Cyfeiriwyd at brosiect 'Riversimple' a'r camau a gymerir yn y maes hwn. Nodwyd bod Siemens yn cefnogi'r prosiect nad oedd yn edrych yn unig ar gerbydau neu isadeiledd ond ar fodel newydd ar gyfer symudedd, ac ar ben hynny roedd y prosiect yn gyfle gwych i Gymru arwain y ffordd. Nododd yr aelodau hefyd y cyfleoedd i drawsnewid fflyd cerbydau'r Cyngor ei hun.

Mynegodd Aelod bryder yn yr hyn yr oedd yn ei ystyried, fel diffyg llwybr archwilio mewn perthynas â Chyllid Strwythurol Ewropeaidd ac roedd yn poeni am atebolrwydd. Rhoddwyd sicrwydd bod fframwaith buddsoddi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael ei graffu a'i adolygu'n gyson trwy amrywiol lwybrau gan gynnwys prosesau profi a herio.

Mynegodd yr aelodau eu cefnogaeth i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a sut yr oedd yn aeddfedu a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar GYC a gwelliannau lles i'r ardal.

Nododd yr aelodau y swyddi a grëwyd a gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oeddent yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol a chadarnhawyd bod y ddau fath o swyddi wedi'u sicrhau, byddai'r pwyslais ar ansawdd y swyddi a grëir nid niferoedd yn unig. Er mwyn sicrhau effeithiau lles, byddai creu swyddi o ansawdd yn allweddol ac nid mater o nifer y swyddi yn unig ydoedd.

Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â rôl y sector preifat a sut y byddai eu hymwneud yn cael ei blismona. Rhoddwyd sicrwydd y cynhaliwyd diwydrwydd dyladwy helaeth, a bod prosesau clir ar waith o ran rheoleiddio a datganiadau.

Cafodd y cyflwyniad ei nodi.

10. ADOLYGU LEFELAU GWASANAETH A PHROSESAU GWNEUD PENDERFYNIADAU AR GYFER SWYDDOGAETHAU RHEOLI DATBLYGU A GORFODAETH CYNLLUNIO Y GWASANAETH CYNLLUNIO

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a adolygodd y broses cyflenwi gwasanaeth a gwneud penderfyniadau ar gyfer swyddogaethau rheoli datblygu a gorfodaeth y Gwasanaeth Cynllunio a gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cyngor i welliannau i'r Cynllun Dirprwyo a Phrotocolau Aelodau a maint y Pwyllgor Cynllunio.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio a'r Pwyllgor Cynllunio ac fe'u cyfeiriwyd at adran 10 o adroddiad y Swyddog a oedd yn manylu ar y sylwadau a'r pryderon a godwyd gan yr Aelodau Pwyllgor hynny.

Cyfeiriwyd at nifer y Swyddogion Gorfodi a gyflogir gan yr Awdurdod a holwyd pa recriwtio oedd yn cael ei wneud i wella hyn. Mynegodd yr Aelod bryder bod y protocol yn cynnwys 'cyswllt cymdeithasol amhriodol â gwrthwynebwyr' nad oedd yn ei farn ef yn briodol a mynegodd bryder ynghylch y cyfeiriad at bresenoldeb 2 mewn cyfarfodydd safle. Roedd hefyd yn pryderu am y gostyngiad arfaethedig yn nifer yr aelodau ward lleol oedd yn siarad yn y Pwyllgor Cynllunio rhywbeth nad oedd yn ei ystyried yn deg nac yn rhesymol.

Teimlai'r Aelod y dylid gohirio'r mater er mwyn sefydlu gweithgor i ystyried y polisi a'r broses yn fwy manwl, gydag adroddiad yn dod yn ôl i'r Cyngor yn yr Hydref.

Nodwyd bod yr adroddiad gerbron y Cyngor wedi bod trwy'r broses graffu ac wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio a oedd wedi rhoi digon o gyfle i'r Aelod dan sylw gyflwyno sylwadau ar yr adroddiad a'i gynigion. O ran y Swyddogion Gorfodi, roedd y broses recriwtio ar droed, a chynhelir cyfweliadau yn fuan ac ymhellach i hyn, penodwyd Swyddog Ardoll Isadeiledd Cymunedol yn ddiweddar. Cytunodd Swyddogion â'r Aelodau bod y lefelau staffio cywir yn hanfodol i ddarparu gwasanaeth cynllunio effeithiol a byddai'r penodiadau hyn yn sicrhau hynny.

Rhoddwyd sicrwydd nad oedd unrhyw newid mewn perthynas ag ymgyngoreion statudol, roedd y cynigion yn ceisio rheoli disgwyliad y cyhoedd a darparu eglurder ar brosesau. Nodwyd bod cyswllt cymdeithasol amhriodol eisoes yn rhan o gyfansoddiad y Cyngor felly nid oedd unrhyw newid yno. Roedd y cyfyngiad o 2 fynychwr yn cyfeirio at gyfarfodydd safle Swyddogion ac nid cyfarfodydd safle ffurfiol y Pwyllgor Cynllunio, byddai Aelodau Wardiau Lleol yn cael eu hannog i fynychu'r cyfarfodydd hynny ynghyd ag Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio. Byddai'r cynigion ar gyfer siaradwyr y Pwyllgor Cynllunio yn helpu i gael gwared ar ailadrodd ac nid oeddent yn effeithio ar allu Aelodau o'r un ward â safbwyntiau gwrthwynebus i annerch y pwyllgor.

Gofynnodd Aelod am eglurhad mewn perthynas â'r argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio y dylid dileu argymhelliad 3.1 (d) ac os oedd hyn yn cael ei ystyried yn awr neu wedi cael ei ddiystyru. Dywedwyd wrth yr Aelod, pan ystyriwyd argymhelliad 3.1(d) gan y Pwyllgor Cynllunio, eu bod wedi cytuno y dylid ei gadw ond roedd angen sicrhau bod Aelodau yn gallu galw ceisiadau llai ymlaen oedd â phwysigrwydd ward felly roeddent yn cynnig ychwanegu geiriad amgen at y cynllun dirprwyo i sicrhau hyn, a'r ail-eirio hwn fel y manylir ar dudalen 37 o'r pecyn agenda oedd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

Gofynnodd yr Aelod os mai dyna oedd y sefyllfa oni ddylai sylwadau'r Pwyllgor Cynllunio fod wedi cael eu dwyn yn ôl i'r Pwyllgor Craffu er mwyn iddynt eu hailystyried. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio a'r Aelod Cabinet nad oeddent yn gweld unrhyw reswm am hyn, pryderon yr Aelodau Craffu oedd y byddai'r cynllun ger eu bron yn atal aelod ward lleol rhag dod â cheisiadau llai i'r pwyllgor, roedd hyn yn bosibl bellach oherwydd yr ail-eirio a gynigiwyd felly nid oedd yn gweld unrhyw wahaniaeth rhwng hynny a'r canlyniad yr oedd y Pwyllgor Craffu am ei gyflawni.

Trafododd yr aelodau aelodaeth pwyllgor a chynrychiolaeth y Blaid Annibynnol; mynegodd Aelod Annibynnol ei barodrwydd i gymryd y sedd ar y Pwyllgor Cynllunio sydd wedi'i atal ar hyn o bryd gan reolau cydbwysedd gwleidyddol. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai adroddiad ar y cydbwysedd gwleidyddol yn cael ei gyflwyno i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo a chytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol trwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar a nodwyd bod 45 o blaid, 8 yn erbyn a 3 yn ymatal.

PENDERFYNWYD:-

a) Cymeradwyo y model darparu gwasanaeth sy'n cael ei yrru gan allbwn arfaethedig ar gyfer y swyddogaeth rheoli datblygu a gorfodi, gyda ffocws ar gyflawni ei rwymedigaethau statudol, blaenlwytho, masnacheiddio pellach a chyflawni cynlluniau mawr a strategol arwyddocaol wedi'u seilio ar gyflwyno dangosydd perfformiad Lles lleol newydd;
b) Cymeradwyo diwygiadau i'r Siarter Orfodi;
c) Cymeradwyo newidiadau i strwythur y Pwyllgor Cynllunio gyda gostyngiad o 20 i 16 Aelod;
d) Cymeradwyo newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo i roi rôl a ffocws mwy strategol i'r Pwyllgor Cynllunio;
e) Cymeradwyo Protocol Aelodau'r Pwyllgor Nad yw'n Ymwneud â Chynllunio ar gyfer Aelodau Ward.

11. CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI MANWERTHU, HAMDDEN A LLETYGARWCH LLYWODRAETH CYMRU 2021/22

Cadarnhaodd y Maer fod yr adroddiad yn cael ei ystyried yn eitem frys gan y Cabinet ac o dan ofynion y Cyfansoddiad rhaid adrodd am unrhyw benderfyniad a gymerir ar frys i'r cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r Cyngor, gan roi'r rhesymau pam ei fod yn fater o frys. Felly, gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r rhesymau dros natur brys yr adroddiad a Phenderfyniad y Cabinet.

Nodwyd yr adroddiad.

12. RHAGLEN SAFLEOEDD STRATEGAETH LLYWODRAETH CYMRU - CYFLEOEDD AR GYFER NESS TAR, CAERFFILI.

Cadarnhaodd y Maer fod yr adroddiad yn cael ei ystyried yn eitem eithriedig frys gan y Cabinet ac o dan ofynion y Cyfansoddiad rhaid rhoi gwybod i gyfarfod nesaf y Cyngor am

unrhyw benderfyniad a gymerir ar frys, gan roi'r rhesymau pam ei fod yn fater brys. Felly, gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r rhesymau pam fod yr adroddiad yn fater o frys a Phenderfyniad y Cabinet.

Gofynnodd Aelod am gyfle i ofyn cwestiynau ar yr adroddiad, oherwydd natur eithriedig ei gynnwys, dywedodd y Swyddog Monitro y byddai angen ystyried a chymeradwyo'r Prawf Budd y Cyhoedd yn gyntaf er mwyn caniatáu trafodaeth heb i'r wasg a'r cyhoedd fod yn bresennol.

MATER EITHRIEDIG

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i dystysgrif prawf budd y cyhoedd gan y Swyddog Priodol a daethant i'r casgliad bod budd y cyhoedd mewn cynnal yr eithriad yn gorbwyso budd y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth. Cytunwyd yn unfrydol trwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar.

> PENDERFYNWYD yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod oherwydd y datgeliad tebygol iddynt o wybodaeth eithriedig fel y nodwyd ym mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Cymerwyd cwestiynau aelodau, a darparwyd pwyntiau eglurhad, ac ar ôl hynny nodwyd yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:50pm

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn amodol ar unrhyw welliannau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt ac a gofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2021 fe'u llofnodwyd gan y Maer.

_____

MAER